


2021

Proffil Lles Cymunedol



De-orllewin

- Maerun
- Gaer
- Parc Tredegar

Tabl y Cynnwys

Rhagair	2
Beth mae pobl yn ei ddweud wrthym?	4
Adran 1: Trosolwg Cymunedol y De-orllewin	6
Cyflwyniad	6
Poblogaeth y gymuned	9
Beth yw cyfansoddiad y boblogaeth?	12
Beth fydd y boblogaeth yn y dyfodol?	17
Adran 2: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	18
Pa mor ddifreintiedig yw ein cymuned?	18
Adran 3: Lles economaidd	20
Beth yw lles economaidd ein cymuned?	20
Beth rydym ni'n ei wybod am les economaidd ein plant a'n pobl ifanc?	35
Pa mor fedrus yw ein plant a'n pobl ifanc?	39
Adran 4: Lles Cymdeithasol	48
Pa mor iach yw ein cymuned?	48
Pa mor ddiogel yw ein cymuned?	58
Sut mae'r trefniadau byw i'r preswylwyr?	69
Adran 5: Lles Diwylliannol	79
Beth yw prif iaith y gymuned?	79
Pwy sy'n siarad Cymraeg yn y gymuned?	81
Adran 6: Lles Amgylcheddol	83
Beth yw cyfansoddiad yr amgylchedd?	83
Sut dirwedd sydd yno?	86
Beth yw'r lefelau ansawdd aer ac allyriadau yng nghymuned y De-orllewin?	88
Beth yw'r perygl llifogydd yma?	89

Rhagair

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw sicrhau bod y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn fwy ystyriol o'r hirdymor ac yn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, wrth geisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cyfunol.

Mae'r Ddeddf yn nodi "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn mynd ati i gyflawni eu dyletswydd lles dan y Ddeddf. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum dull o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus gymryd sylw ohonynt wrth roi datblygu cynaliadwy ar waith. Y rhain yw:

Hirdymor



Atal



Integreiddio



Cydwethio



Cyfranogiad



- Wrth edrych i'r **Hirdymor** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Deall gwir achosion problemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd;
- Mabwysiadu dull **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr holl nodau lles wrth benderfynu ar eu hamcanion lles;
- Gweithio gydag eraill mewn modd **cydweithredol** i ganfod datrysiadau cynaliadwy a rennir;
- **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;

Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod lles sydd, gyda'i gilydd, yn cynnig gweledigaeth a rennir i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag ati. Mae'n rhaid i'r nodau hyn gael eu hystyried fel set integredig o saith er mwyn sicrhau y caiff y cysylltiadau perthnasol eu gwneud yng nghyd-destun gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Yn ogystal â'r ddyletswydd lles a roddir ar y cyrff cyhoeddus a restrir ar wahân, mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd lles ar gyrff cyhoeddus penodol i weithio ar y cyd drwy fyrdau gwasanaethau cyhoeddus gan gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau lles



Aseiad o Les Lleol

Fel rhan o'r ddyletswydd les gyfunol, rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi aseiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.


Mae'r aseiad hwn yn adlewyrchiad cywir o'r cyflwr lles ym mhob cymuned ac yn yr ardal gyfan.

Rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun lles lleol yn nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni.

Cymunedau sy'n rhan o'r ardal

I gefnogi'r aseiad lles rhanbarthol ar gyfer Gwent, mae ardal Casnewydd wedi'i rhannu'n 5 ardal gymunedol, sef:

Ardal Gymunedol	Wardiau Casnewydd				
Canol	Allt-yr-ynn	Stow Hill	Pilgwenlli	Shaftesbury	
Gogledd	Betws	Malpas			
Gogledd-orllewin	Tŷ-du	Graig			
Gogledd-ddwyrain	Caerllion	Beechwood	Sain Silian	Victoria	
De-orllewin	Maerun	Gaer	Parc Tredegar		
Dwyrain	Alway	Ringland	Llswyry	Llanwern	Langstone



Beth mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Dosbarthwyd holiadur lles Gwent ddiwedd haf 2021 a chafwyd 1,713 o ymatebion ledled y rhanbarth. Nod yr holiadur hwn oedd casglu barn preswylwyr yng Ngwent ar sail 4 cwestiwn a fyddai'n ein helpu i gael dealltwriaeth o ansawdd lles yn eu hardal leol. Mae'r adran ganlynol hon yn darparu data am y mathau o faterion a chyfleoedd a oedd yn bresennol yng Ngwent a godwyd trwy farn ymatebwyr ar gyfer y rhai sy'n byw ym mhob un o bum ward ardal gymunedol y De-orllewin. Gofynnwyd y 4 cwestiwn canlynol:

- Beth sy'n arbennig am eich cymuned?
- Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?
- Sut olwg hoffech chi ei weld ar eich cymuned yn y dyfodol?
- Sut gall eich cymuned weithio gyda ni i wneud i hynny ddigwydd?


Dywedodd preswylwyr o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin wrthym fod cael **mynediad i gymunedau glân** yn bwysig iawn iddynt, yn enwedig oherwydd y gwerth maen nhw'n ei roi ar fannau agored lleol. Tynnodd pobl sylw at y ffaith fod **llawer o sbwriel** yn cael ei adael ar eu llawr ar draws eu hardal leol a sut byddai cael **mynediad i fwy o finiau** a rhoi **dirwyon llymach** yn helpu i atal pobl rhag taflu sbwriel ac yn helpu i lanhau eu cymunedau lleol.

Dywedodd pobl wrthym hefyd fod **teimlo'n ddiogel** ar draws eu cymuned yn bwysig iawn iddynt hwy a'u teuluoedd. Dywedon nhw wrthym y byddai darparu **mwyr o heddlu** i **siarad am faterion lleol** yn helpu i wella'r ymdeimlad o ddiogelwch o fewn y gymuned ynghyd â **gwella ymgysylltiad** rhwng gwasanaeth yr heddlu a chymunedau lleol.

Y 3 phrif ymateb i bob cwestiwn am les

C1: Beth sy'n arbennig am eich cymuned?	C2: Beth fyddai'n ei wneud yn lle gwell?	C3: Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?	C4: Sut olwg hoffech chi ei weld ar eich cymuned yn y dyfodol?	C5: Sut gall eich cymuned weithio gyda ni i wneud i hynny ddigwydd?
Mynediad i Fannau Agored (21)	Diogelwch Cymunedol (10)	Diogelwch Cymunedol (16)	Diogelwch Cymunedol (15)	Ymgysylltu â'r Gymuned (5)
Diogelwch Cymunedol (10)	Mannau Cymunedol (9)	Mynediad i Drafnidiaeth (15)	Ysbryd Cymunedol (7)	Hysbysebu Digwyddiadau Lleol (2)
Cydlyniant Cymunedol (8)	Ymdrin â Sbwriel (6)	Mynediad i Weithgareddau (7)	Mynediad i Fannau glân (5)	Cyllid Cymunedol (2)

Mae'r pynciau sy'n arbennig ym marn y preswylwyr a'r hyn a fyddai'n gwneud eu cymuned yn well yn cael eu dangos isod.



Adran 1: Trosolwg Cymunedol y De-orllewin

Cyflwyniad

Poblogaeth (amcangyfrif 2020) – Maerun 6,449 – Gaer 9,133 – Parc Tredegar 4,945	% o Boblogaeth Casnewydd – Maerun 4.12% – Gaer 5.84% – Parc Tredegar 3.16%
Dwysedd Poblogaeth (poblogaeth fesul km²) – Maerun 144 – Gaer 3,262 – Parc Tredegar 2,763	Poblogaeth Lleiafrifoedd Ethnig – Maerun 9.1% – Gaer 10.3% – Parc Tredegar 12.8%
Arwynebedd (km²) – Maerun 44.81 – Gaer 2.80 – Parc Tredegar 1.79	Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is – Maerun 4 – Gaer 6 – Parc Tredegar 2
% o Arwynebedd Casnewydd – Maerun 20.65% – Gaer 1.29% – Parc Tredegar 0.82%	Cynghorau Cymuned – Maerun 4 – Gaer 0 – Parc Tredegar 0

	Maerun	Gaer	Parc Tredegar
Cyfanswm Nifer yr Eiddo Preswyl (Ionawr 2022):	2,653	4,148	2,163

Ffiniau Wardiau ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is

Ffiniau daearyddol y Wardiau a'r *Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) o fewn y proffil yw'r rhai a gynhyrchir yn ffurfiol gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru mewn perthynas ag adrannau etholiadol neu ward presennol a daearyddiaethau ardaloedd bach dilynol a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

Cyflwynwyd ACEHI gyntaf gan y SYG yn dilyn Cyfrifiad 2001 ac fe'u diweddarwyd yn dilyn Cyfrifiad 2011. Sefydlwyd ACEHI i wella cymariaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a sicrhau cyfrinachedd unigolion a'u bod yn cael eu diogelu trwy ddatgelu ar lefel briodol.

Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is wedi'u cynllunio i wella'r broses o adrodd am ystadegau ardaloedd daearyddol bach ac maent wedi'u halinio'n llawn ac yn gyffiniol ag adrannau etholiadol a ffiniau wardiau etholiadol.

Lle mae poblogaethau wedi cynyddu ers 2001, mae'r AGEHI wedi'i rhannu'n ddwy ardal neu fwy. Lle mae poblogaeth wedi gostwng, mae'r AGEHI wedi'i huno ag un gyfagos.

I grynhoi, caiff Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is eu creu a'u llunio ar sail y trothwyon isafswm ac uchafswm poblogaeth ac aelwydydd canlynol yng Nghymru a Lloegr:

Poblogaeth		Aelwydydd	
Isafswm	Uchafswm	Isafswm	Uchafswm
1,000	3,000	400	1,200

Twf Poblogaeth 2011 – 2020

Mae'r tablau isod yn dangos y twf yn y boblogaeth ar gyfer Casnewydd rhwng 2011 a 2020 ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Mae hyn yn cymharu data a gasglwyd trwy Gyfrifiad 2011 a'r Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn diweddaraf a ryddhawyd ar lefel awdurdod lleol.

Crynodeb o'r Newidiadau - Trosolwg o Dwf Poblogaeth 2011 – 2020:

	Casnewydd 2011 ¹	Casnewydd 2020 ²	% o Gyfanswm y Boblogaeth	Gwahaniaeth %	
Pob Oedran	145,736	156,447	100.0	7.35	
0 i 15 oed	29,388	32,050	20.49	9.06	
16 i 44 oed	56,261	58,443	37.36	3.88	
45 i 64 oed	36,336	39,300	25.12	8.16	
65+ oed	23,751	26,654	17.04	12.22	

¹ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

² [Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020 y SYG](#)

Poblogaeth y gymuned

Gall deall poblogaeth ardal a sut y gallai hyn newid roi cipolwg ar yr asedau a'r heriau sy'n debygol o fodoli neu godi, a'r mathau o bolisiau a mentrau a allai fod fwyaf priodol.

Faint o bobl sydd yno?

Ers y Cyfrifiad yn 2001, o fewn cymuned y De-orllewin cafwyd cynnydd ym mhoblogaeth wardiau Maerun, Gaer a Pharc Tredegar, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf ym Maerun ar gyfer y grŵp oedran 65+, gan godi bron 95%. Yr unig ostyngiad a gafwyd oedd Gaer ar gyfer y grŵp oedran 65+, gan ostwng ychydig dros 1%.


	2001 ³	2011 ⁴	2020 ⁵	Gwahaniaeth % (2001 i 2020)	
Casnewydd	137,011	145,736	156,447	14.19	↑
Maerun: Pob Oedran	4,245	6,270	6,449	51.92	↑
Maerun: 0 i 15 oed	976	1,303	1,214	24.39	↑
Maerun: 16 i 64 oed	2,684	4,168	4,096	52.61	↑
Maerun: 65+ oed	585	799	1,139	94.70	↑
Gaer: Pob Oedran	8,568	8,721	9,133	6.59	↑
Gaer: 0 i 15 oed	1,799	1,725	1,883	4.67	↑
Gaer: 16 i 64 oed	4,931	5,226	5,432	10.16	↑
Gaer: 65+ oed	1,838	1,770	1,818	-1.09	↓
Parc Tredegar: Pob Oedran	3,387	4,421	4,945	46.00	↑
Parc Tredegar: 0 i 15 oed	1,070	1,129	1,208	12.90	↑
Parc Tredegar: 16 i 64	1,880	2,769	3,066	63.09	↑
Parc Tredegar: 65+ oed	437	523	671	53.55	↑

Mae'r map drosodd yn dangos yr amrywiadau yng nghyfanswm lefelau'r boblogaeth ar draws yr ACEHI ym mhob un o thair ward cymuned y De-orllewin ar sail amcangyfrifon canol blwyddyn 2020.


³ Cyfrifiad 2001, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

⁴ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

⁵ [Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020 y SYG](#)



Yng nghymuned y De-orllewin, roedd dwysedd y boblogaeth ar sail amcangyfrifon canol blwyddyn 2020⁶ yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward, sef 144 ym Maerun; 2,763 ym Mharc Tredegar; a 3,262 yn Gaer. Mae dwysedd y boblogaeth ym Maerun yn is na chyfartaledd Casnewydd (721), gyda Gaer a Pharc Tredegar yn uwch na hynny.




⁶ [Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020 y SYG](#)

Beth yw cyfansoddiad y boblogaeth?

Yng nghymuned y De-orllewin, roedd y rhaniad oedran yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward. Mae gan Barc Tredegar ganran uwch o'r boblogaeth o dan 16 oed ac yn 16-44 oed, gyda chanran is yn 45-64 oed ac yn 65+ oed o gymharu â chyfartaledd Casnewydd.

Mae gan Maerun ganran is o'r boblogaeth o dan 16 oed ac yn 16-44 oed, gyda chanran uwch yn 45-64 oed ac yn 65+ oed o gymharu â chyfartaledd Casnewydd.

Mae gan Gaer ganran is o'r boblogaeth o dan 16 oed ac yn 65+ oed, gyda chanran uwch yn 16-44 oed ac yn 45-64 oed o gymharu â chyfartaledd Casnewydd.



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020⁷ ar gyfer cymuned y De-orllewin:

	Pob Oedran	0 i 15 oed		16 i 44 oed		45 i 64 oed		65+ oed	
	Nifer	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Maerun 2	1,429	233	16.3	385	26.9	437	30.6	374	26.2
Maerun 3	1,229	214	17.4	343	27.9	382	31.1	290	23.6
Maerun 4	1,125	151	13.4	273	24.3	381	33.9	320	28.4
Maerun 5	1,411	266	18.9	375	26.6	420	29.8	350	24.8
Maerun	5,194	864	16.6	1,376	26.5	1,620	31.2	1,334	25.7
Gaer 1	1,663	353	21.2	641	38.5	406	24.4	263	15.8
Gaer 2	1,759	360	20.5	843	47.9	375	21.3	181	10.3
Gaer 3	1,430	239	16.7	531	37.1	334	23.4	326	22.8
Gaer 4	1,613	306	19.0	546	33.8	467	29.0	294	18.2
Gaer 5	1,121	197	17.6	346	30.9	336	30.0	242	21.6
Gaer 6	1,258	264	21.0	525	41.7	321	25.5	148	11.8
Gaer	8,844	1,719	19.4	3,432	38.8	2,239	25.3	1,454	16.4
Parc Tredegar 1	2,407	580	24.1	1,087	45.2	538	22.4	202	8.4
Parc Tredegar 2	1,328	243	18.3	542	40.8	370	27.9	173	13.0
Parc Tredegar	3,735	823	22.0	1,629	43.6	908	24.3	375	10.0
Casnewydd	156,447	32,050	20.5	58,433	37.4	39,300	25.1	26,654	17.0


⁷ [Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020 y SYG](#)

Ethnigrwydd a Hunaniaeth

Roedd data'r Cyfrifiad diweddaraf yn 2011⁸ yn dangos bod poblogaeth cymuned y De-orllewin ar gyfer pobl o gefndir gwyn yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward, sef 94.1% ym Maerun; 92.4% yn Gaer; a 91.2% ym Mharc Tredegar; o gymharu ag 89.9% ar gyfer Casnewydd. Roedd gan Maerun, Gaer a Pharc Tredegar hefyd ganran is o bobl o gefndir nad oeddent yn wyn o gymharu â Chasnewydd.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r ddinas wedi profi newidiadau i gyfansoddiad ei phoblogaeth, gydag 8.2% o bobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar 31 Rhagfyr 2011⁹, gan godi i 10.8% yn 2015 a 13.2% yn 2020. Bydd data mwy manwl am ethnigrwydd ar draws y thair ward hyn ar gael pan gyhoeddir y Cyfrifiad nesaf.

Ethnigrwydd												
Cyfrifiad 2011	Pob Preswlydd		Gwyn: Cyfanswm		Cymysg: Cyfanswm		Asiaidd: Cyfanswm		Du: Cyfanswm		Arall: Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Maerun	6,270	100.0	5,903	94.1	104	1.7	178	2.8	54	0.9	31	0.5
Gaer	8,721	100.0	8,061	92.4	181	2.1	323	3.7	99	1.1	57	0.7
Parc Tredegar	4,421	100.0	4,031	91.2	118	2.7	159	3.6	77	1.7	36	0.8
Casnewydd	145,736	100.0	131,025	89.9	2,752	1.9	7,986	5.5	2,535	1.7	1,438	1.0
Cymru	3,063,456	100.0	2,928,253	95.6	31,521	1.0	70,128	2.3	18,276	0.6	15,278	0.5




⁸ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

⁹ [Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, SYG](#)

Roedd data'r Cyfrifiad diweddaraf yn 2011¹⁰ yn dangos bod poblogaeth cymuned y De-orllewin ar gyfer pobl a aned y tu allan i'r DU yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward, sef 8.2% ym Mharc Tredegar; 6.9% yn Gaer; a 6.8% ym Maerun; o gymharu ag 8.5% ar gyfer Casnewydd. Roedd gan Maerun, Gaer a Pharc Tredegar hefyd ganran is o bobl a aned y tu allan i'r DU o gymharu â Chasnewydd.

Gwlad Enedigol												
Cyfrifiad 2011	Cymru		Y Deyrnas Unedig		Gweriniaeth Iwerddon		Aelod-wledydd Eraill yr UE		Gwledydd Eraill sydd wedi'u Derbynn gan yr UE		Gwledydd Eraill	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Maerun	4,631	73.9	5,842	93.2	22	0.4	72	1.1	74	1.2	260	4.1
Gaer	7,280	83.5	8,121	93.1	60	0.7	63	0.7	83	1.0	394	4.5
Parc Tredegar	3,451	78.1	4,060	91.8	28	0.6	32	0.7	99	2.2	202	4.6
Casnewydd	113,353	77.8	133,403	91.5	717	0.5	1,187	0.8	2,101	1.4	8,328	5.7
Cymru	2,226,005	72.7	2,895,585	94.5	12,175	0.4	26,343	0.9	29,017	0.9	100,336	3.3




¹⁰ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Roedd data'r Cyfrifiad diweddaraf yn 2011¹¹ yn dangos bod poblogaeth cymuned y De-orllewin ar gyfer pobl a nododd eu bod yn Gristion yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward, sef 63.8% ym Maerun; 61.5% yn Gaer; a 52.0% ym Mharc Tredegar; o gymharu â 56.9% ar gyfer Casnewydd. Dim ond Parc Tredegar oedd â chanran uwch o bobl a ddywedodd dim crefydd o gymharu â Chasnewydd, tra bod gan Maerun a Gaer ganran is.

Crefydd										
Cyfrifiad 2011	Cristion		Bwdhydd		Hindŵ		Iddew		Mwslim	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Maerun	3,998	63.8	14	0.2	57	0.9	12	0.2	69	1.1
Gaer	5,364	61.5	26	0.3	24	0.3	5	0.1	164	1.9
Parc Tredegar	2,300	52.0	17	0.4	18	0.4	0	0.0	90	2.0
Casnewydd	82,858	56.9	360	0.2	685	0.5	99	0.1	6,859	4.7
Cymru	1,763,299	57.6	9,117	0.3	10,434	0.3	2,064	0.1	45,950	1.5


Cyfrifiad 2011	Sic		Crefyddau eraill		Dim crefydd		Heb nodi	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%		
Maerun	6	0.1	11	0.2	1,691	27.0	412	6.6
Gaer	2	0.0	21	0.2	2,433	27.9	682	7.8
Parc Tredegar	2	0.0	17	0.4	1,636	37.0	341	7.7
Casnewydd	141	0.1	463	0.3	43,336	29.7	10,935	7.5
Cymru	2,962	0.1	12,705	0.4	982,997	32.1	233,928	7.6



¹¹ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Roedd data'r Cyfrifiad diweddaraf yn 2011¹² yn dangos bod poblogaeth cymuned y De-orllewin sydd wedi bod yn breswylwyr yn y DU am lai na 10 mlynedd yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward, sef 3.4% ym Maerun; 4.0% yn Gaer; a 5.3% ym Mharc Tredegar o gymharu â 4.8% ar gyfer Casnewydd. Roedd gan Barc Tredegar ganran uwch o bobl a oedd wedi bod yn breswylwyr yn y DU am lai na 10 mlynedd o gymharu â Chasnewydd, tra bod gan Maerun a Gaer ganran is.

Mudo										
Cyfrifiad 2011	Ganed yn y DU		Preswlydd yn y DU; Llai na 2 flynedd		Preswlydd yn y DU am 2 flynedd neu fwy ond llai na 5 mlynedd		Preswlydd yn y DU am 5 mlynedd neu fwy ond llai na 10 mlynedd		Preswlydd yn y DU am 10 mlynedd neu fwy	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Maerun	5,842	93.2	31	0.5	84	1.3	98	1.6	215	3.4
Gaer	8,121	93.1	38	0.4	90	1.0	224	2.6	248	2.8
Parc Tredegar	4,060	91.8	22	0.5	72	1.6	140	3.2	127	2.9
Casnewydd	133,403	91.5	1,609	1.1	2,242	1.5	3,082	2.1	5,400	3.7
Cymru	2,895,585	94.5	27,456	0.9	29,403	1.0	35,486	1.2	75,526	2.5



¹² Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Beth fydd y boblogaeth yn y dyfodol?

Mae'n ddefnyddiol deall sut y gallai niferoedd ein poblogaeth newid yn y dyfodol.

Mae'r tybiaethau a ddefnyddir i gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol ar gyfer Cymru yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Nid yw'r rhain yn caniatáu am effaith polisïau llywodraeth leol neu ganolog ar lefelau neu ddosbarthiad poblogaeth yn y dyfodol, ond maent yn nodi'r hyn y disgwylir iddo ddigwydd os bydd y tueddiadau hyn yn parhau. Gan eu bod yn seiliedig ar dueddiadau, maent yn mynd yn llai sicr po fwyaf y cânt eu cario ymlaen.

Mae'r tabl isod yn dangos y twf yn y boblogaeth ar gyfer Casnewydd a Chymru rhwng 2001 a 2020, gydag amcanestyniadau poblogaeth hyd at 2043 ar sail amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2018¹³.

Mae hyn yn dangos y rhagwelir y bydd poblogaeth Casnewydd yn cynyddu i 176,632 yn 2043, sy'n gynydd o 15.2% o amcangyfrif poblogaeth 2018 y mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig arnynt.

	2001 ¹⁴	2011 ¹⁵	2018	2020 ¹⁶	2025	2030	2035	2040	2043
Maerun	4,245	6,270	-	6,449	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Gaer	8,568	8,721	-	9,133	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Parc Tredegar	3,387	4,421	-	4,945	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Casnewydd	137,011	145,736	153,302	156,447	161,476	166,187	170,296	174,290	176,632
Cymru	2,903,085	3,063,456	3,138,631	3,169,586	3,193,609	3,229,297	3,260,660	3,290,312	3,309,154

Ar lefel gymunedol, nid yw amcanestyniadau poblogaeth ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o edrych ar dueddiadau'r gorffennol, mae'n debygol y bydd y poblogaethau ar draws Maerun, Parc Tredegar a Gaer yn cynyddu.

¹³ [Amcanestyniadau Poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn 2018, Stats Cymru](#)

¹⁴ Cyfrifiad 2001, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

¹⁵ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

¹⁶ [Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020 y SYG](#)

Adran 2: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Pa mor ddifreintiedig yw ein cymuned?

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru¹⁷ (MALIC) 2019 yn mesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ar hyn o bryd, wyth maes (neu fath) ar wahân o amddifadedd a gwmpesir gan MALIC. Mae pob maes wedi'i greu o amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol:

Graddfeydd MALIC 2019	Nifer yr ACEHI	% yr ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-191	% yr ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-382	% yr ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-573	% yr ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-955
Casnewydd	95	24.2	34.7	40.0	60.0
Cymru	1,909	10	20	30	50

Roedd ACEHI Parc Tredegar 2 a Gaer 5 yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn gyffredinol); a Maerun 4 yn y 50% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mewn cymhariaeth roedd Maerun 5 a Maerun 2 yn y 20% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig, roedd Gaer 3 yn y 30% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig; a Pharc Tredegar 1 yn y 40% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae Parc Tredegar yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd, gydag un o'i dwy AGEHI yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r llall yn y 40% mwyaf difreintiedig.

	Graddfeydd MALIC	Incwm	Cyflogaeth	Iechyd	Addysg	Mynediad i Wasanaethau	Diogelwch Cymunedol	Amgylchedd Ffisegol	Tai
Maerun 2	1563	1843	1873	1813	1829	392	714	121	1884
Maerun 3	1522	1469	1467	1283	1627	1443	866	120	1842
Maerun 4	1131	1543	1492	1014	1552	150	762	98	1761
Maerun 5	1621	1635	1776	1887	1369	1379	636	141	1651
Gaer 1	1124	1121	824	1226	948	1137	442	505	1563
Gaer 2	314	234	203	329	503	558	706	797	1583
Gaer 3	1524	1347	1432	1125	1065	1747	1282	618	1603
Gaer 4	630	513	689	726	538	755	272	734	1359
Gaer 5	166	129	391	178	103	385	113	441	1107
Gaer 6	588	660	747	712	466	692	271	251	751
Parc Tredegar 1	712	662	884	914	446	1320	319	66	1714
Parc Tredegar 2	39	51	93	65	55	314	15	93	1273

Allwedd:



Graddfeydd cyffredinol MALIC lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru




Graddfeydd Maes MALIC Unigol lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Ystod Graddfeydd MALIC:

1 i 191	-	y 10% mwyaf difreintiedig
192 i 382	-	yr 20% mwyaf difreintiedig
383 i 573	-	y 30% mwyaf difreintiedig
574 i 955	-	y 50% mwyaf difreintiedig
956 i 1,909	-	y 50% lleiaf difreintiedig

Mae'r ddelwedd thematig yn dangos graddfa MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ddynodedig o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.

¹⁷ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#)



Adran 3: Lles economaidd

Mae lles economaidd yn cynnwys poblogaeth fedrus a hyddysg, economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i elwa o'r cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith dibynadwy ac incwm digonol.

Beth yw lles economaidd ein cymuned?

MALIC 2019 – Maes Incwm

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru¹⁸ (MALIC) 2019 yn mesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ar hyn o bryd, wyth maes (neu fath) ar wahân o amddifadedd a gwmpesir gan MALIC. Mae pob maes wedi'i greu o amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol:

Mae'r maes incwm yn cynnwys un dangosydd (canran y boblogaeth mewn amddifadedd incwm), sy'n cynnwys pedair elfen:

- Hawlwyr Budd-dal sy'n Gysylltiedig ag Incwm
- Derbynwyr Credydau Treth
- Ceiswyr Lloches a Gynorthwyr
- Pobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (ac eithrio'r rhai sy'n 'gweithio heb unrhyw ofynion', hynny yw, gydag enillion unigol neu aelwydydd dros y lefel y mae amodoldeb¹⁹ yn gymwys).

Mae plant dibynnol yr uchod hefyd wedi'u cynnwys. Mynegir y dangosydd hwn fel canran o'r boblogaeth breswyl ar gyfer pob AGEHI, gyda phoblogaeth y carchardai yn cael ei thynnu o'r ACEHI sy'n cynnwys carchardai yng Nghymru.

Mesurwyd amddifadedd incwm fel canran y boblogaeth sy'n derbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol ers i MALIC gael ei ddatblygu gyntaf a thros amser bu newidiadau bach i'r system les sydd wedi effeithio ar drothwyon cymhwysedd a meini prawf ar gyfer rhai budd-daliadau. Er gwaethaf y newidiadau hyn, gan gynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol, yn raddol rydym wedi ceisio cadw data mor gymaradwy dros amser â phosibl. O ganlyniad, gellir ystyried bod data'n gymharol gymaradwy dros amser. Mae'r rhifyn blaenorol o erthygl canllawiau dangosyddion MALIC (2014-2017)²⁰ yn cynnwys rhagor o fanylion am gyflwyno hawlwr Credyd Cynhwysol ar gyfer diweddariadau dangosyddion 2016 a 2017.

Ar gyfer MALIC 2019 defnyddiwyd data o flwyddyn ariannol 2016-17 gan mai dyma oedd y pwynt olaf mewn amser cyn dechrau cyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru. Dechreuwyd cyflwyno'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn yng Nghymru ym mis Ebrill 2017. O ystyried natur ddaearyddol ac amserlen hir gweithredu'r gwasanaeth, mae gwahaniaethau rhwng Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol yn golygu efallai na fyddwn yn cymharu tebyg â'r tebyg yn ystod y broses gyflwyno'n llawn. Gan ddefnyddio data o flwyddyn ariannol 2016-17 a dim ond gan gynnwys achosion cynnar, syml o hawlwr Credyd Cynhwysol (a'u dibynyddion), sicrhodd felly gysondeb data ar draws ardaloedd. Er bod data o flwyddyn ariannol 2016-17 hefyd wedi'i ddefnyddio ar gyfer diweddariad dangosyddion 2017, oherwydd y defnydd o amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig a thynnu poblogaeth y carchardai yn 2019, ni fydd data o 2017 a 2019 o reidrwydd yn cyfateb.

Er bod Credyd Cynhwysol yn dal i gael ei gyflwyno, ni allwn ddiweddarau ein mesur o hawlwr budd-daliadau fel procsi ar gyfer incwm isel. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar opsiynau ar gyfer mesur priodol o amddifadedd incwm ar gyfer mynegeion yn y dyfodol.

¹⁸ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#)

¹⁹ [Yr Adran Gwaith a Phensiynau - Stat Xplore](#)

²⁰ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - Canllawiau i'r Dangosyddion](#)

Graddfeydd Incwm 2019	Nifer yr ACEHI	% yr ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-191	% yr ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-382	% yr ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-573	% yr ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-955
Casnewydd	95	20.0	32.6	41.1	57.9
Cymru	1,909	10	20	30	50

Roedd ACEHI Parc Tredegar 2 a Gaer 5 yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes Incwm; a Maerun 3 yn y 30% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mewn cymhariaeth roedd AGEHI Maerun 2 yn y 10% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig, roedd Gaer 3 yn y 30% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig; a Pharc Tredegar 1 yn y 40% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn y maes Incwm, mae Parc Tredegar yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd, gydag un o'i dwy AGEHI yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r llall yn y 40% mwyaf difreintiedig.

	Graddfeydd MALIC	Incwm
Maerun 2	1563	1843
Maerun 3	1522	1469
Maerun 4	1131	1543
Maerun 5	1621	1635
Gaer 1	1124	1121
Gaer 2	314	234
Gaer 3	1524	1347
Gaer 4	630	513
Gaer 5	166	129
Gaer 6	588	660
Parc Tredegar 1	712	662
Parc Tredegar 2	39	51

Allwedd:




Graddfeydd cyffredinol MALIC lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Graddfeydd Maes MALIC Unigol lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Ystod Graddfeydd MALIC:

1 i 191	-	y 10% mwyaf difreintiedig
192 i 382	-	yr 20% mwyaf difreintiedig
383 i 573	-	y 30% mwyaf difreintiedig
574 i 955	-	y 50% mwyaf difreintiedig
956 i 1,909	-	y 50% lleiaf difreintiedig

Mae'r ddelwedd thematig yn dangos graddfa Maes Incwm MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ddynodedig o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.



MALIC 2019 – Maes Cyflogaeth

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru²¹ (MALIC) 2019 yn mesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ar hyn o bryd, wyth maes (neu fath) ar wahân o amddifadedd a gwmpesir gan MALIC. Mae pob maes wedi'i greu o amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol:

Mae'r maes cyflogaeth yn cynnwys un dangosydd (canran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth), sy'n cynnwys pedair elfen:

- Lwfans Ceisio Gwaith (LCG)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh)
- Budd-dal Analluogrwydd (wedi disodli Lwfans Anabledd Difrifol)
- Credyd Cynhwysol (CC) ac nid mewn cyflogaeth.

Mynegir y dangosydd hwn fel canran o'r boblogaeth breswyl o oedran gweithio ar gyfer pob AGEHI, gyda phoblogaeth y carchardai yn cael ei thynnu o'r ACEHI sy'n cynnwys carchardai yng Nghymru.

Mae newidiadau i'r system les, gan gynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol yn raddol, yn golygu bod trothwyon cymhwysedd a meini prawf ar gyfer rhai budd-daliadau wedi newid dros amser. Er gwaethaf y newidiadau hyn, gan gynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol, yn raddol rydym wedi ceisio cadw data mor gymaradwy dros amser â phosibl. O ganlyniad, gellir ystyried bod data'n gymharol gymaradwy dros amser. Mae'r rhifyn blaenorol o erthygl canllawiau dangosyddion MALIC (2014-2017)²² yn cynnwys rhagor o fanylion am gyflwyno hawlwr Credyd Cynhwysol ar gyfer diweddariadau dangosyddion 2016 a 2017. Ar gyfer MALIC 2019 defnyddiwyd data o flwyddyn ariannol 2016-17 gan mai dyma oedd y pwynt olaf mewn amser cyn dechrau cyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru. O ystyried natur ddaearyddol ac amserlen hir gweithredu'r gwasanaeth, mae gwahaniaethau rhwng Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol yn golygu efallai na fyddwn yn cymharu tebyg â'r tebyg yn ystod y broses gyflwyno'n llawn. Trwy ddefnyddio data o flwyddyn ariannol 2016-17, dim ond achosion cynnar, syml o hawlwr Credyd Cynhwysol oedd wedi'u cynnwys ac felly sicrhawyd cysondeb data ar draws ardaloedd. Defnyddiwyd data o flwyddyn ariannol 2016-17 hefyd ar gyfer diweddariad dangosyddion 2017. Fodd bynnag, oherwydd y defnydd o amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig a thynnu poblogaeth y carchardai yn 2019, ni fydd data o 2017 a 2019 o reidrwydd yn cyfateb.

Er bod Credyd Cynhwysol yn dal i gael ei gyflwyno, ni allwn ddiweddarau ein mesur o amddifadedd cyflogaeth. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar opsiynau ar gyfer mesur priodol o amddifadedd cyflogaeth ar gyfer mynegeion yn y dyfodol.

Graddfeydd Cyflogaeth 2019	Nifer yr ACEHI	% yr ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-191	% yr ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-382	% yr ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-573	% yr ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-955
Casnewydd	95	11.6	25.3	34.7	53.7
Cymru	1,909	10	20	30	50

Roedd AGEHI Parc Tredegar 2 yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes Cyflogaeth; tra bo Gaer 2 yn y 20% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig; a Maerun 4 a Maerun 3 yn y 30% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mewn cymhariaeth roedd ACEHI Maerun 2 a Maerun 5 yn y 10% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig, roedd Gaer 3 yn y 30% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig; a Pharc Tredegar yn y 50% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn y maes Cyflogaeth, mae Parc Tredegar yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd, gydag un o'i dwy AGEHI yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r llall yn y 50% mwyaf difreintiedig.

²¹ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#)

²² [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - Canllawiau i'r Dangosyddion](#)

	Graddfeydd MALIC	Cyflogaeth
Maerun 2	1563	1873
Maerun 3	1522	1467
Maerun 4	1131	1492
Maerun 5	1621	1776
Gaer 1	1124	824
Gaer 2	314	203
Gaer 3	1524	1432
Gaer 4	630	689
Gaer 5	166	391
Gaer 6	588	747
Parc Tredegar 1	712	884
Parc Tredegar 2	39	93

Allwedd:


Graddfeydd cyffredinol MALIC lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Graddfeydd Maes MALIC Unigol lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Ystod Graddfeydd MALIC:

1 i 191	-	y 10% mwyaf difreintiedig
192 i 382	-	yr 20% mwyaf difreintiedig
383 i 573	-	y 30% mwyaf difreintiedig
574 i 955	-	y 50% mwyaf difreintiedig
956 i 1,909	-	y 50% lleiaf difreintiedig

Mae'r ddelwedd thematig yn dangos graddfa Maes Cyflogaeth MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ddynodedig o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.



MALIC 2019 – Maes Addysg

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru²³ (MALIC) 2019 yn mesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ar hyn o bryd, wyth maes (neu fath) ar wahân o amddifadedd a gwmpesir gan MALIC. Mae pob maes wedi'i greu o amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol: Mae'r maes addysg yn cynnwys chwe dangosydd:

- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog y Cyfnod Sylfaen
- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer Pynciau Craidd
- Absenoldeb Mynych
- Cyfran Ymadawyr Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd i Addysg Uwch
- Nifer yr Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau

Bu sawl newid methodolegol i'r maes addysg rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019. Roedd tri o'r chwe dangosydd yn y maes yn bresennol ym MALIC 2014:

- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Absenoldeb Mynych
- Nifer yr Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau

Gellir cymharu data Cyfnod Allweddol 2 ac absenoldeb mynych dros amser.

Mae'r ddau ddangosydd Cyfnod Allweddol 4 a gafwyd ym MALIC 2014 wedi cael eu disodli gan un dangosydd. Lluniwyd y dangosydd hwn gan ddefnyddio methodoleg newydd ac felly ni ellir ei gymharu â'r dangosyddion blaenorol a ddefnyddiwyd ym MALIC 2014.

Mae dangosydd Cyfnod Sylfaen sy'n seiliedig ar ganlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer disgyblion a addysgir yng Ngrŵp Blwyddyn 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'i gynnwys ym MALIC 2019. Bwriedir iddo ategu dangosydd Cyfnod Allweddol 2 i fesur amddifadedd addysg mewn ysgolion cynradd.

Mae'r pedwar dangosydd y cyfeirir atynt uchod i gyd yn seiliedig ar dair blynedd o ddata o flynyddoedd academiaidd 2015/16, 2016/17 a 2017/18. Daw'r data o Gyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), y Casgliad Data Cenedlaethol (CDC) ac – ar gyfer Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 – Cronfa Ddata Arholiadau Cymru.

Yr enwaduron a ddefnyddiwyd i gyfrifo sgoriau pwyntiau cyfartalog y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4 oedd cyfanswm nifer y disgyblion a oedd yn astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Ngrwpiau Blwyddyn 2, 6 ac 11.

Mae'r dangosydd absenoldeb mynych yn mesur canran y disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd sy'n colli mwy na 15% o sesiynau ysgol. Yr enwadur a ddefnyddiwyd i gyfrifo Absenoldeb Mynych oedd cyfanswm nifer y disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd.

Mae dangosydd cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch wedi cael ei ddisodli gan ddangosydd sy'n mesur Cyfran y rhai sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd i Addysg Uwch. Er bod y dangosyddion hyn yn mesur pethau tebyg, nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol. Mae data ar lefel disgyblion o CYBLD wedi'i baru â data Cofnod yr Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fesur cyfran y disgyblion CA4 a oedd, rywbryd yn ystod y dair blynedd ddilynol ar ôl gadael Blwyddyn 11, wedi mynd i Addysg Uwch. Diffinnir darpariaeth Addysg Uwch at ddibenion y dangosydd hwn fel unrhyw raglen ddysgu sy'n uwch na lefel 3 – h.y. mae'n cynnwys graddau israddedig, prentisiaethau uwch. Mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar y cyfartaledd 4 blynedd ar gyfer blynedd academaidd 2011/12 i 2014/15. Yr enwadur a ddefnyddir yw cyfanswm nifer y disgyblion yng Ngrŵp Blwyddyn 11 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

²³ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#)

Daw'r data am nifer yr Oedolion heb unrhyw gymwysterau o Gyfrifiad 2011 ac felly nid yw wedi newid o'i gymharu â data Mynegai 2014. Mynegir y dangosydd hwn fel canran a'r enwadur a ddefnyddir yw cyfanswm y boblogaeth 25-64 oed.

Graddfeydd Addysg 2019	Nifer yr ACEHI	% yr ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-191	% yr ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-382	% yr ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-573	% yr ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-955
Casnewydd	95	21.1	29.5	44.2	52.6
Cymru	1,909	10	20	30	50

Roedd ACEHI Parc Tredegar 2 a Gaer 5 yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes Addysg; a Maerun 5 yn y 30% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mewn cymhariaeth roedd AGEHI Maerun 2 yn y 10% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig, roedd Gaer 3 yn y 50% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig; a Pharc Tredegar 1 yn y 30% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn y maes Addysg, mae Parc Tredegar yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd, gydag un o'i dwy AGEHI yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r llall yn y 30% mwyaf difreintiedig.

	Graddfeydd MALIC	Addysg
Maerun 2	1563	1829
Maerun 3	1522	1627
Maerun 4	1131	1552
Maerun 5	1621	1369
Gaer 1	1124	948
Gaer 2	314	503
Gaer 3	1524	1065
Gaer 4	630	538
Gaer 5	166	103
Gaer 6	588	466
Parc Tredegar 1	712	446
Parc Tredegar 2	39	55

Allwedd:




Graddfeydd cyffredinol MALIC lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Graddfeydd Maes MALIC Unigol lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Ystod Graddfeydd MALIC:

1 i 191	-	y 10% mwyaf difreintiedig
Yn y maes Diogelwch Cymunedol, mae Parc Tredegar yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd, gydag un o'i dwy AGEHI yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r llall yn y 20% mwyaf difreintiedig.

	Graddfeydd MALIC	Diogelwch Cymunedol
Maerun 2	1563	714
Maerun 3	1522	866
Maerun 4	1131	762
Maerun 5	1621	636
Gaer 1	1124	442
Gaer 2	314	706
Gaer 3	1524	1282
Gaer 4	630	272
Gaer 5	166	113
Gaer 6	588	271
Parc Tredegar 1	712	319
Parc Tredegar 2	39	15

Allwedd:




Graddfeydd cyffredinol MALIC lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Graddfeydd Maes MALIC Unigol lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Ystod Graddfeydd MALIC:

1 i 191	-	y 10% mwyaf difreintiedig
192 i 382	-	yr 20% mwyaf difreintiedig
383 i 573	-	y 30% mwyaf difreintiedig
574 i 955	-	y 50% mwyaf difreintiedig
956 i 1,909	-	y 50% lleiaf difreintiedig

Mae'r ddelwedd thematig yn dangos graddfa Maes Diogelwch Cymunedol MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ddynodedig o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.




Trais a Throseddau Rhywiol

Yng nghymuned y De-orllewin yr ACEHI gyda'r niferoedd uchaf o achosion o drais a throseddau rhywiol rhwng mis Awst 2018 a mis Gorffennaf 2021 oedd Parc Tredegar 1 (320) a Gaer 5 (258). Mae hyn yn cymharu â'r nifer isaf o ddigwyddiadau yn Maerun 4 (57), Gaer 3 (60), Maerun 3 (103) a Maerun 2 (119).

Ar draws cymuned y De-orllewin roedd nifer yr achosion o drais a throseddau rhywiol rhwng Awst 2018 a Gorffennaf 2021 yn amrywio ar draws ei thair ward, o Gaer (957); Parc Tredegar (566); a Maerun (403).

Cyfanswm Nifer yr Achosion o Drais a Throseddau Rhywiol	
Police.co.uk ⁴²	Achosion o Awst 2018 i Orffennaf 2021
Maerun 2	119
Maerun 3	104
Maerun 4	57
Maerun 5	123
Maerun	403
Gaer 1	175
Gaer 2	146
Gaer 3	60
Gaer 4	165
Gaer 5	258
Gaer 6	153
Gaer	957
Parc Tredegar 1	320
Parc Tredegar 2	246
Parc Tredegar	566
Casnewydd	18,073

⁴² www.Police.co.uk




Achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Yng nghymuned y De-orllewin roedd yr ACEHI gyda'r niferoedd uchaf o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol o fis Awst 2018 i fis Gorffennaf 2021 yn Mharc Tredegar 1 (351). Mae hyn yn cymharu â'r nifer isaf o ddigwyddiadau yn Gaer 3 (34), Maerun 3 (53), Maerun 4 (96) a Gaer 6 (102).

Ar draws cymuned y De-orllewin roedd nifer yr achosion o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol rhwng Awst 2018 a Gorffennaf 2021 yn amrywio ar draws ei thair ward, o Gaer (950); Parc Tredegar (573); a Maerun (502).

Cyfanswm Nifer yr Achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	
Police.co.uk ⁴³	Achosion o Awst 2018 i Orffennaf 2021
Maerun 2	124
Maerun 3	53
Maerun 4	96
Maerun 5	229
Maerun	502
Gaer 1	288
Gaer 2	131
Gaer 3	34
Gaer 4	165
Gaer 5	230
Gaer 6	102
Gaer	950
Parc Tredegar 1	351
Parc Tredegar 2	222
Parc Tredegar	573
Casnewydd	17,583

⁴³ www.Police.co.uk




Yr Holl Droseddau Eraill a Gofnodwyd gan yr Heddlu

Yng nghymuned y De-Orllewin roedd yr ACEHI gyda'r niferoedd uchaf o'r holl droseddau eraill a gofnodwyd gan yr heddlu rhwng Awst 2018 a Gorffennaf 2021 yn Gaer 1 (508) a Pharc Tredegar 2 (425). Mae hyn yn cymharu â'r nifer isaf o ddigwyddiadau yn Maerun 3 (115), Maerun 4 (118), Gaer 2 (160), Gaer 3 (162) a Gaer 4 (169).

Ar draws cymuned y De-orllewin roedd nifer yr achosion o'r holl droseddau eraill a gofnodwyd gan yr heddlu rhwng Awst 2018 a Gorffennaf 2021 yn amrywio ar draws ei thair ward, o Gaer (1,471); Parc Tredegar (772); a Maerun (665).

Cyfanswm yr Holl Droseddau Eraill a Gofnodwyd	
Police.co.uk ⁴⁴	Achosion o Awst 2018 i Orffennaf 2021
Maerun 2	180
Maerun 3	115
Maerun 4	118
Maerun 5	252
Maerun	665
Gaer 1	508
Gaer 2	160
Gaer 3	162
Gaer 4	169
Gaer 5	287
Gaer 6	185
Gaer	1,471
Parc Tredegar 1	347
Parc Tredegar 2	425
Parc Tredegar	772
Casnewydd	27,342

⁴⁴ www.Police.co.uk




Tân

Yng nghymuned y De-orllewin roedd yr ardaloedd â'r nifer uchaf o ddigwyddiadau tân o fis Gorffennaf 2019 i fis Mehefin 2021 ym Mharc Tredegar 1 (55) a Pharc Tredegar 2 (89). Mae hyn yn cymharu â'r nifer isaf o ddigwyddiadau tân ym Gaer 3 (1), Gaer 2 (3) a Gaer 6 (5).

Ar draws cymuned y De-orllewin roedd nifer yr achosion o ddigwyddiadau tân rhwng Gorffennaf 2018 a Mehefin 2021 yn amrywio ar draws ei thair ward, o Maerun (61); Gaer (62); a Pharc Tredegar (144).

Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau Tân	
GTADC⁴⁵	Digwyddiadau rhwng Gorffennaf 2019 a Mehefin 2021
Maerun 2	7
Maerun 3	12
Maerun 4	22
Maerun 5	20
Maerun	61
Gaer 1	9
Gaer 2	3
Gaer 3	1
Gaer 4	8
Gaer 5	36
Gaer 6	5
Gaer	62
Parc Tredegar 1	55
Parc Tredegar 2	89
Parc Tredegar	144
Casnewydd	1,519

⁴⁵ Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



Sut mae'r trefniadau byw i'r preswylwyr?

MALIC 2019 – Maes Tai

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru⁴⁶ (MALIC) 2019 yn mesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ar hyn o bryd, wyth maes (neu fath) ar wahân o amddifadedd a gwmpesir gan MALIC. Mae pob maes wedi'i greu o amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol:

Diben y maes tai yw nodi tai annigonol, o ran amodau ffisegol a byw, ac argaeledd. Yma, mae amodau byw yn golygu addasrwydd y tai ar gyfer y rhai sy'n byw ynddynt, er enghraifft o ran iechyd a diogelwch, ac addasiadau angenrheidiol. Mae'r maes tai yn cynnwys dau ddangosydd:

- Mae dangosydd sy'n ymwneud â gorlenwi yn mesur canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd gorlawn (mesur ystafelloedd gwely ar sail Cyfrifiad 2011).
- Dangosydd newydd wedi'i fodelu ar gyfer tai o ansawdd gwael. Mae'n mesur y tebygolrwydd y bydd tai mewn cyflwr gwael neu'n cynnwys peryglon difrifol (er enghraifft, risg o gwympto neu dai oer), ac fe'i cyfrifwyd o gmysgedd o arolwg a ffynonellau data gweinyddol gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE).

Gorlenwi

Daw'r data am bobl sy'n byw ar aelwydydd gorlawn o Gyfrifiad 2011 ac felly nid yw wedi newid o gymharu â data 2014. Roedd y data ym MALIC 2011 yn seiliedig ar ddata o Gyfrifiad 2001 ond ni ellir ei gymharu â data mwy diweddar oherwydd newid i'r mesur ar sail nifer yr ystafelloedd gwely.

Mae'r dangosydd hwn yn mesur a yw llety aelwyd yn orlawn (ar sail nifer yr ystafelloedd gwely). Defnyddir oedrannau aelodau'r aelwyd a'u perthynas â'i gilydd i gyfrifo nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen arnynt, ar sail fformiwla safonol. Gweler adroddiad technegol MALIC 2019⁴⁷ am fwy o fanylion.

Tai o Ansawdd Gwael

Ym MALIC 2019, mae'r maes tai yn cyflwyno dangosydd modelu newydd ar gyfer tai o ansawdd gwael. Mae'r dangosydd hwn yn helpu i gofnodi cyflwr ffisegol ac amodau byw. Dyma'r tro cyntaf i ddefnyddio data wedi'i fodelu mewn unrhyw faes o MALIC, ac mae wedi gwella'r ystod o wybodaeth am dai sydd ar gael yn yr ardal leol. Fodd bynnag, un anfantais o ddefnyddio data wedi'i fodelu'n barhaus yw'r cyfyngiad posibl o ran adlewyrchu effaith ymyriadau diweddar neu newidiadau eraill. Os yw'n llywio penderfyniadau, dylid defnyddio data wedi'i fodelu ar y cyd â data neu wybodaeth leol gadarn a chyfredol lle bynnag y bo'n bosibl.

Cyfrifir y dangosydd newydd gan ddefnyddio model a adeiladwyd o ddata arolwg, sy'n gwneud rhagfynegiadau tebygolrwydd am anheddau lefel unigol yng Nghymru, gan ddefnyddio ystod o setiau data gweinyddol fel mewnbynnau. Gweler adroddiad technegol MALIC 2019 am fwy o fanylion. Mae hyn yn ein galluogi i amcangyfrif y tebygolrwydd y bydd gan anheddau mewn ardal benodol:

- berygl Categori 1 oherwydd gormod o oerfel, cwympiadau neu beryglon eraill o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (SMIDT)⁴⁸
- neu y byddant mewn cyflwr gwael

Ystyrir bod gan annedd berygl Categori 1 o ganlyniad i oerfel gormodol os oes bygythiad difrifol o dymheredd dan do is-optimaidd. Asesir bod gan annedd berygl Categori 1 o ran cwympiadau os ystyrir bod risg ddifrifol o gwympto ar y grisiau, rhwng lefelau neu ar arwynebau gwastad, neu gwympto sy'n gysylltiedig â bath, cawod neu gyfleuster tebyg.

Dywedir bod annedd mewn cyflwr gwael os yw o leiaf un o'r elfennau adeiladwaith allweddol yn hen ac mae angen ei hadnewyddu neu ei hatgyweirio'n sylweddol oherwydd ei chyflwr; neu mae mwy nag un o'r

⁴⁶ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#)

⁴⁷ [Adroddiad Technegol MALIC 2019](#)

⁴⁸ [System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai \(SMIDT\)](#)

cydrannau adeiladwaith eraill yn hen ac mae angen eu hadnewyddu neu eu hatgyweirio'n sylweddol. Sylwer bod angen i dai cymdeithasol gynnal Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)⁴⁹, ac felly mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o dai cymdeithasol, mae'r data wedi'i fodelu yn tueddu i ddangos tebygolrwydd is o dai o ansawdd gwael.

Graddfeydd Tai 2019	Nifer yr ACEHI	% yr ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-191	% yr ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-382	% yr ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-573	% yr ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-955
Casnewydd	95	12.6	25.3	27.4	37.9
Cymru	1,909	10	20	30	50

Roedd AGEHI Gaer 6 yn y 40% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes Tai; roedd Parc Tredegar 2 yn y 40% uchaf o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig; ac roedd Maerun 5 yn y 20% uchaf o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mewn cymhariaeth roedd ACEHI Maerun 2, Maerun 3 a Maerun 4 yn y 10% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig; ac roedd Gaer 1, Gaer 2 a Pharc Tredegar 1 yn yr 20% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

	Graddfeydd MALIC	Tai
Maerun 2	1563	1884
Maerun 3	1522	1842
Maerun 4	1131	1761
Maerun 5	1621	1651
Gaer 1	1124	1563
Gaer 2	314	1583
Gaer 3	1524	1603
Gaer 4	630	1359
Gaer 5	166	1107
Gaer 6	588	751
Parc Tredegar 1	712	1714
Parc Tredegar 2	39	1273

Allwedd:



Graddfeydd cyffredinol MALIC lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru


Graddfeydd Maes MALIC Unigol lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Ystod Graddfeydd MALIC:

1 i 191	-	y 10% mwyaf difreintiedig
192 i 382	-	yr 20% mwyaf difreintiedig
383 i 573	-	y 30% mwyaf difreintiedig
574 i 955	-	y 50% mwyaf difreintiedig
956 i 1,909	-	y 50% lleiaf difreintiedig

Mae'r ddelwedd thematig yn dangos graddfeydd Maes Tai MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ddynodedig o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.

⁴⁹ [Safon Ansawdd Tai Cymru \(SATC\)](#)



MALIC 2019 – Maes Mynediad i Wasanaethau

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru⁵⁰ (MALIC) 2019 yn mesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ar hyn o bryd, wyth maes (neu fath) ar wahân o amddifadedd a gwmpesir gan MALIC. Mae pob maes wedi'i greu o amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol:

Mae'r maes mynediad i wasanaethau yn mesur mynediad corfforol trwy amserau teithiau dychwelyd cyfartalog (mewn munudau) i 8 gwasanaeth gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus a 9 gwasanaeth sy'n defnyddio trafndiaeth breifat. Mae dangosydd mynediad i wasanaethau digidol hefyd wedi'i ychwanegu ar gyfer MALIC 2019, sy'n mesur mynediad i fand eang cyflym iawn. Amlinellir y dangosyddion sy'n cyfrannu at y maes hwn isod.

- Amser teithio cyhoeddus a phreifat cyfartalog i Fferyllfa
- Amser teithio cyhoeddus a phreifat cyfartalog i Siop Fwyd
- Amser teithio cyhoeddus a phreifat cyfartalog i Feddygfa
- Amser teithio cyhoeddus a phreifat cyfartalog i Swyddfa Bost
- Amser teithio cyhoeddus a phreifat cyfartalog i Ysgol Gynradd
- Amser teithio cyhoeddus a phreifat cyfartalog i Lyfrgell Gyhoeddus
- Amser teithio cyhoeddus a phreifat cyfartalog i Gyfleuster Chwaraeon
- Amser teithio cyhoeddus a phreifat cyfartalog i Ysgol Uwchradd
- Amser teithio preifat cyfartalog i Orsaf Betrol
- % Diffyg argaeledd band eang ar 30Mb/s

Mynediad Corfforol

Rydym wedi diweddarau cyfres o ddangosyddion MALIC 2014 sy'n mesur amserau teithio i wasanaethau allweddol. Er nad yw egwyddorion y fethodoleg ar gyfer mesur amserau teithio wedi newid rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019 – mae'r pecynnau cymorth technegol a ddefnyddiwyd wedi newid yn sylweddol i geisio cynyddu cywirdeb, cadernid a'r modd i ailadrodd y data. Ceir manylion llawn am yr hyn sydd wedi newid, a'r paramedrau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifiadau MALIC 2019, yn yr Adroddiad Technegol⁵¹.

Oherwydd y gwelliannau a wnaed, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau yng ngwerthoedd y dangosydd amser teithio, nad ydynt yn gwbl gymaradwy â data hyn.

Ar gyfer MALIC 2019, cyfrifwyd amserau teithio trafndiaeth gyhoeddus (cerdded a defnyddio bws cyhoeddus, trên cyhoeddus neu coets cenedlaethol) i'r pwynt mynediad agosaf ar gyfer gwasanaeth penodol gan ddefnyddio propeR, cynllunydd teithiau amlfoddol ffynhonnell agored (ceir mwy o wybodaeth yn ystorfa GitHub⁵²).

Cyfrifwyd amserau teithio trafndiaeth breifat i'r man mynediad agosaf ar gyfer gwasanaeth penodol gan ddefnyddio'r llyfrgell pgRouting o fewn PostGIS. Cipiwyd y rhwydwaith cerbydau ar ffurf Rhwydwaith Priffyrdd MasterMap yr Arolwg Ordnans, gyda'r cyflymder cerbydau cyfartalog yn seiliedig ar Ddata Cyflymder Cyfartalog o Basemap.

Mae data cyflymder cyfartalog yn adlewyrchu'r cyflymder cerbydau cyfartalog ar draws 2018. Cafwyd geometreg y ffordd, amserlenni trafndiaeth gyhoeddus a'r holl darddiadau gwasanaethau ym mis Mawrth 2019.

Mynediad Digidol

Cyfrifir y dangosydd mynediad digidol fel cyfran y cartrefi a'r busnesau bach nad ydynt yn gallu cael band eang llinell sefydlog ar gyflymder cysoni lawrlwytho o 30Mb/s neu uwch (band eang cyflym iawn). Mae hyn yn

⁵⁰ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#)

⁵¹ [Adroddiad Technegol MALIC 2019](#)

⁵² [Ystorfa GitHub](#)

cynnwys eiddo heb fand eang. Y ffynhonnell yw Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Ofcom ar gyfer Gwanwyn 2019⁵³.

Graddfeydd Mynediad i Wasanaethau 2019	Nifer yr ACEHI	% yr ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-191	% yr ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-382	% yr ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-573	% yr ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-955
Casnewydd	95	2.1	8.4	23.2	43.2
Cymru	1,909	10	20	30	50

Roedd AGEHI Maerun 4 yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes Mynediad i Wasanaethau; roedd Parc Tredegar 2 yn y 20% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig; ac roedd Gaer 5 a Gaer 2 yn y 30% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mewn cymhariaeth roedd AGEHI Gaer 3 yn y 10% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig, roedd Maerun 3 yn y 30% uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig; a Pharc Tredegar 1 yn y 40% uchaf o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

	Graddfeydd MALIC	Mynediad i Wasanaethau
Maerun 2	1563	392
Maerun 3	1522	1443
Maerun 4	1131	150
Maerun 5	1621	1379
Gaer 1	1124	1137
Gaer 2	314	558
Gaer 3	1524	1747
Gaer 4	630	755
Gaer 5	166	385
Gaer 6	588	692
Parc Tredegar 1	712	1320
Parc Tredegar 2	39	314

Allwedd:



Graddfeydd cyffredinol MALIC lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru


Graddfeydd Maes MALIC Unigol lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Ystod Graddfeydd MALIC:

1 i 191	-	y 10% mwyaf difreintiedig
192 i 382	-	yr 20% mwyaf difreintiedig
383 i 573	-	y 30% mwyaf difreintiedig
574 i 955	-	y 50% mwyaf difreintiedig
956 i 1,909	-	y 50% lleiaf difreintiedig

Mae'r ddelwedd thematig yn dangos graddfeydd Maes Mynediad i Wasanaethau MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ddynodedig o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.

⁵³ [Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Ofcom ar gyfer Gwanwyn 2019](#)



Cartrefi Gwag

Ar draws cymuned y De-orllewin roedd nifer cartrefi gwag yn amrywio ar draws ei thair ward, o Barc Tredegar (3); Maerun (19); a Gaer (34).

Nifer y Cartrefi Gwag Prosbectws Tai CDC Mehefin 2021 ⁵⁴		Nifer
Maerun		19
Gaer		34
Parc Tredegar		3
Casnewydd		625

Mae'r ddelwedd thematig isod yn dangos nifer y cartrefi gwag o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.

Tai Fforddiadwy

Ar draws cymuned y De-orllewin roedd canran y stoc bresennol sy'n dai fforddiadwy yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward, gan amrywio o Faerun (5%); Gaer (28%); a Pharc Tredegar (46%).

Stoc Bresennol sy'n Dai Fforddiadwy Prosbectws Tai CDC Mehefin 2021		%
Maerun		5
Gaer		28
Parc Tredegar		46

Mae'r ddelwedd thematig isod yn dangos canran y stoc bresennol sy'n dai fforddiadwy o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.


Chwilio am Lety


Ar draws cymuned y De-orllewin roedd canran yr ymgeiswyr tai sy'n ceisio lloches yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward, gan amrywio o Faerun (12%); Parc Tredegar (18%); a Gaer (37%).


Ymgeiswyr Tai yn Ceisio Llety Prosbectws Tai CDC Mehefin 2021		%
Maerun		12
Gaer		37
Parc Tredegar		18

Mae'r ddelwedd thematig isod yn dangos canran yr ymgeiswyr tai sy'n ceisio llety o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.

⁵⁴ Prosbectws Tai Cyngor Dinas Casnewydd Mehefin 2021







Adran 5: Lles Diwylliannol

Mae lles diwylliannol yn cwmpasu meysydd fel tollau, credoau a rennir, ymddygiadau a hunaniaeth. Gallai gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol wrth asesu lles diwylliannol ardal gynnwys mesurau sy'n ymwneud â threftadaeth, iaith a thraddodiadau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, creadigol a diwylliannol.

Ar hyn o bryd, prin yw'r mesurau sydd ar gael ar lefel ward neu AGEHI i gefnogi'r asesiad ardal leol o les diwylliannol.

Beth yw prif iaith y gymuned?


Roedd data'r Cyfrifiad diweddaraf yn 2011⁵⁵ yn dangos bod canran y preswylwyr (3 oed a hŷn) o fewn cymuned y De-orllewin a nododd mai Cymraeg / Saesneg oedd eu prif iaith yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward, sef Parc Tredegar (95.7%); Gaer (96.7%); a Maerun (97.3%); a oedd yn cymharu â 95.0% ar gyfer Casnewydd a 97.1% ar gyfer Cymru.

Prif iaith y gymuned							
Cyfrifiad 2011	Pawb arferol 3 oed a hŷn		Cymraeg / Saesneg		Nid Cymraeg / Saesneg		Iaith arwyddion (gan gynnwys yn y Gymraeg / Saesneg)
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	
Maerun 2	1,415	96.6	1,399	98.9	16	1.1	0 0.0
Maerun 3	1,800	95.5	1,763	97.9	37	2.1	0 0.0
Maerun 4	1,421	96.0	1,361	95.8	60	4.2	0 0.0
Maerun 5	1,324	91.9	1,275	96.3	49	3.7	0 0.0
Maerun	5,960	95.1	5,798	97.3	162	2.7	0 0.0
Gaer 1	1,364	97.8	1,328	97.4	36	2.6	1 0.1
Gaer 2	1,426	97.5	1,392	97.6	34	2.4	0 0.0
Gaer 3	1,367	96.1	1,341	98.1	26	1.9	0 0.0
Gaer 4	1,320	95.9	1,292	97.9	28	2.1	0 0.0
Gaer 5	1,436	93.6	1,368	95.3	68	4.7	2 0.1
Gaer 6	1,458	95.4	1,374	94.2	84	5.8	0 0.0
Gaer	8,371	96.0	8,095	96.7	276	3.3	3 0.0
Parc Tredegar 1	2,480	93.7	2,361	95.2	119	4.8	0 0.0
Parc Tredegar 2	1,696	95.7	1,636	96.5	60	3.5	2 0.1
Parc Tredegar	4,176	94.5	3,997	95.7	179	4.3	2 0.0
Casnewydd	139,849	96.0	132,901	95.0	6,948	5.0	71 0.1
Cymru	2,955,841	96.5	2,871,405	97.1	84,436	2.9	1,118 0.0

⁵⁵ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Roedd amrywiad bach hefyd rhwng yr ACEHI ym mhob un o'r wardiau yn amrywio o 95.8% i 98.9% ym Maerun; 94.2% i 98.1% yn Gaer; a 95.2% i 96.5% ym Mharc Tredegar.

Roedd gan Faerun, Gaer a Pharc Tredegar ganran uwch o breswylwyr (3 oed a hŷn) a nododd mai Cymraeg / Saesneg oedd eu prif iaith o gymharu â chyfartaledd Casnewydd.



Pwy sy'n siarad Cymraeg yn y gymuned?

Roedd data'r Cyfrifiad diweddaraf yn 2011⁵⁶ yn dangos bod canran y preswylwyr (3 oed a hŷn) yng nghymuned y De-orllewin a nododd y gallent siarad Cymraeg yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward, sef Gaer (8.1%); Maerun (9.2%); a Pharc Tredegar (11.3%); a oedd yn cymharu â 9.3% ar gyfer Casnewydd a 19.0% ar gyfer Cymru.

Roedd amrywiad hefyd rhwng yr ACEHI ym mhob un o'r wardiau yn amrywio o 8.4% i 9.7% ym Maerun; 6.6% i 11.0% yn Gaer; a 9.7% i 12.4% ym Mharc Tredegar.

Roedd gan Gaer a Maerun ganran is o breswylwyr (3 oed a hŷn) a nododd y gallent siarad Cymraeg o gymharu â chyfartaledd Casnewydd; roedd gan Barc Tredegar ganran uwch.


Sgiliau iaith Gymraeg y gymuned (3 oed a hŷn)								
Cyfrifiad 2011	Gallu siarad Cymraeg		Gallu siarad Cymraeg (3 i 15 oed)		Gallu siarad Cymraeg (16 i 64 oed)		Gallu siarad Cymraeg (65 oed a hŷn)	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Maerun 2	137	9.7	80	58.4	56	40.9	1	0.7
Maerun 3	170	9.4	108	63.5	52	30.6	10	5.9
Maerun 4	119	8.4	73	61.3	43	36.1	3	2.5
Maerun 5	122	9.2	65	53.3	55	45.1	2	1.6
Maerun	548	9.2	326	59.5	206	37.6	16	2.9
Gaer 1	95	7.0	47	49.5	39	41.1	9	9.5
Gaer 2	94	6.6	57	60.6	33	35.1	4	4.3
Gaer 3	111	8.1	71	64.0	36	32.4	4	3.6
Gaer 4	95	7.2	60	63.2	35	36.8	0	0.0
Gaer 5	158	11.0	122	77.2	35	22.2	1	0.6
Gaer 6	128	8.8	78	60.9	48	37.5	2	1.6
Gaer	681	8.1	435	63.9	226	33.2	20	2.9
Parc Tredegar 1	308	12.4	190	61.7	117	38.0	1	0.3
Parc Tredegar 2	165	9.7	116	70.3	46	27.9	3	1.8
Parc Tredegar	473	11.3	306	64.7	163	34.5	4	0.8
Casnewydd	13,002	9.3	8,164	62.8	4,436	34.1	402	3.1
Cymru	562,016	19.0	168,750	30.0	302,334	53.8	90,932	16.2

⁵⁶ Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Yng nghymuned y De-orllewin, roedd y rhaniad oedran ar gyfer preswylwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio ar draws pob un o'i thair ward. Parc Tredegar sydd â'r ganran uchaf o'i phoblogaeth rhwng 3 a 15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg (64.7%), yna Gaer (63.9%); a'r ganran isaf ym Maerun (59.5%). Roedd hyn yn cymharu â 62.8% ar gyfer Casnewydd a 30.0% ar gyfer Cymru.

Maerun sydd â'r ganran uchaf o'i phoblogaeth rhwng 16 a 64 oed sy'n gallu siarad Cymraeg (37.6%), yna Parc Tredegar (34.5%); a'r ganran isaf yn Gaer (33.2%). Roedd hyn yn cymharu â 34.1% ar gyfer Casnewydd a 53.8% ar gyfer Cymru.

Maerun a Gaer sydd â'r ganran uchaf o'i phoblogaeth 65 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg (2.9%); a'r ganran isaf ym Mharc Tredegar (0.8%). Roedd hyn yn cymharu â 3.1% ar gyfer Casnewydd a 16.2% ar gyfer Cymru.



Adran 6: Lles Amgylcheddol

Gall ein hamgylchedd a sut rydym yn teimlo amdano effeithio ar ein lles. Mae lles amgylcheddol yn cwmpasu ystod eang o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys deall cyflwr presennol ein hamgylchedd naturiol ac effaith ein gweithredoedd arno. Mae hefyd yn cynnwys rheoli a diogelu'r amgylchedd a deall unrhyw risgiau i ni ein hunain ac eraill o'r amgylchedd o'n cwmpas.

Beth yw cyfansoddiad yr amgylchedd?

MALIC 2019 – Maes yr Amgylchedd Ffisegol

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru⁵⁷ (MALIC) 2019 yn mesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ar hyn o bryd, wyth maes (neu fath) ar wahân o amddifadedd a gwmpesir gan MALIC. Mae pob maes wedi'i greu o amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol: Diben y maes hwn yw mesur ffactorau yn yr ardal leol a all effeithio ar les neu ansawdd bywyd y sawl sy'n byw yn yr ardal. Mae maes yr amgylchedd ffisegol yn cynnwys tri is-faes fel a ganlyn:

- Ansawdd Aer (tri dangosydd)
- Perygl Llifogydd (un dangosydd)
- Mannau Gwyrdd (dau ddangosydd)

Bu sawl newid methodolegol i faes yr amgylchedd ffisegol rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019. Ym MALIC 2014, roedd yr is-faes Ansawdd Aer yn cynnwys dau ddangosydd – Crynodiadau Aer ac Allyriadau Aer – a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfuniad o ddata crynodiadau ar gyfer amrywiaeth o lygryddion ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Mae'r is-faes wedi'i symleiddio ar gyfer MALIC 2019 ac mae bellach yn cynnwys tri dangosydd ar sail gwerthoedd crynodiad cyfartalog wedi'u pwysoli gan y boblogaeth o'r llygryddion canlynol:

- Nitrogen deuocsid (NO₂)
- Gronynnau < 10 µm (PM₁₀)
- Gronynnau < 2.5 µm (PM_{2.5})

Mae is-faes Mannau Gwyrdd wedi'i gynnwys ym MALIC 2019 yn hytrach nag is-faes Agosrwydd at Safleoedd Gwaredu Gwastraff a Diwydiannol. Mae'r is-faes hwn yn cynnwys dau ddangosydd:

- Agosrwydd at fannau gwyrdd naturiol hygrych – mesur canran yr aelwydydd o fewn 300 metr o fan gwyrdd naturiol hygrych, a
- Sgôr manau gwyrdd amgylchynol – mesur Mynegai Llystyfiant Gwahaniaeth wedi'i Normaleiddio (MLIGN) cymedrig ar gyfer aelwydydd.

Mae'r is-faes Perygl Llifogydd ar gyfer MALIC 2019 wedi dod o set ddata Asesu Perygl Llifogydd Cymru (APLIC) a ddatblygwyd ac a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r data hwn yn cynnwys gwybodaeth am berygl llifogydd o afonydd, y môr a llifogydd dŵr wyneb. Mae hyn yn newid o MALIC 2014 lle nad oedd cyfrifiad yr is-faes Perygl Llifogydd yn cynnwys llifogydd dŵr wyneb.

Dangosyddion Ansawdd Aer

Mae'r is-faes Ansawdd Aer yn cynnwys tri dangosydd ar wahân sy'n mesur crynodiadau o lygryddion allweddol. Fe'u creir gan ddefnyddio mesuriadau o lygryddion a allai gael effeithiau negyddol ar iechyd pobl a/neu'r amgylchedd, ar sail y ddealltwriaeth feddygol a gwyddonol orau, ac fe'u cynigir fel mesur procsi o ansawdd yr amgylchedd cyfagos. Mae ansawdd aer gwael yn awgrymu agosrwydd at weithgareddau penodol fel symudiad traffig, hylosgi domestig a safleoedd diwydiannol – gweithgareddau a allai gael effaith negyddol ar ansawdd bywyd, yr amgylchedd lleol ac iechyd.

⁵⁷ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#)

Dangosyddion manau gwyrdd

Mae'r is-faes Mannau Gwyrdd yn cynnwys dau ddangosydd sy'n mesur agosrwydd at fannau gwyrdd hygrych, naturiol a swm y manau gwyrdd amgylchynol. Po uchaf yw gwerth yr MLIGN, y mwyaf o fannau gwyrdd amgylchynol sydd yn yr ardal ddaearyddol honno.

Graddfeydd yr Amgylchedd Ffisegol 2019	Nifer yr ACEHI	% yr ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-191	% yr ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-382	% yr ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-573	% yr ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig Graddfeydd 1-955
Casnewydd	95	43.2	68.4	80	95.8
Cymru	1,909	10	20	30	50

Roedd ACEHI Parc Tredegar 1, Parc Tredegar 2, Maerun 4, Maerun 3, Maerun 2 a Maerun 5 yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer maes yr Amgylchedd Ffisegol; ac roedd Gaer 6 yn y 20% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig. O gymharu Gaer 2 yn unig oedd y tu allan i'r 40% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

O ran maes yr Amgylchedd Ffisegol, mae Maerun a Pharc Tredegar yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd, gyda phob un o'i ACEHI yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

	Graddfeydd MALIC	Amgylchedd Ffisegol
Maerun 2	1563	121
Maerun 3	1522	120
Maerun 4	1131	98
Maerun 5	1621	141
Gaer 1	1124	505
Gaer 2	314	797
Gaer 3	1524	618
Gaer 4	630	734
Gaer 5	166	441
Gaer 6	588	251
Parc Tredegar 1	712	66
Parc Tredegar 2	39	93

Allwedd:


Graddfeydd cyffredinol MALIC lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Graddfeydd Maes MALIC Unigol lle mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Ystod Graddfeydd MALIC:

1 i 191	-	y 10% mwyaf difreintiedig
192 i 382	-	yr 20% mwyaf difreintiedig
383 i 573	-	y 30% mwyaf difreintiedig
574 i 955	-	y 50% mwyaf difreintiedig
956 i 1,909	-	y 50% lleiaf difreintiedig

Mae'r ddelwedd thematig yn dangos graddfeydd Maes Amgylchedd Ffisegol MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ddynodedig o fewn tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.



Sut dirwedd sydd yno?

Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch

Mae'r safon ofynnol a fabwysiadwyd o 2.4 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer mannau agored, chwaraeon a hamdden yn deillio o 'Safonau Meincnod' gofynnol Meysydd Chwarae Cymru ar gyfer chwaraeon a chwarae awyr agored. Dyma'r unig safon genedlaethol a ddarperir ar gyfer chwaraeon awyr agored a mannau chwarae ac felly mae'n dal i gael ei hargymell fel arfer gorau. Mae'r safon Meysydd Chwarae Cymru yn cynrychioli lefel ofynnol o ddarpariaeth a dylid ceisio ei chyrraedd felly ledled Casnewydd mewn ardaloedd trefol a gwledig.


Mae'r safonau meincnod wedi'u rhoi ar waith wrth ddarparu chwaraeon a chwarae awyr agored a'u defnyddio i helpu i nodi unrhyw ardaloedd fesul ward yng Nghasnewydd lle mae diffyg darpariaeth. Ceir dadansoddiad manwl a chrynodeb o'r Ddarpariaeth Mannau Agored ffurfiol, anffurfiol ac ag offer ar gyfer y tair ward yng nghymuned y De-orllewin isod.

	Poblogaeth 2011	Categori Mannau Agored	Gofyniad Meysydd Chwarae Cymru (hectarau)	Darpariaeth Wirioneddol (hectarau)	Diffyg / Gwarged
Maerun	6,270	Crynodeb	15.05	3.53	-11.52 ↓
		Ffurfiol	10.03	2.00	-8.03 ↓
		Anffurfiol	3.45	1.33	-2.12 ↓
		Ag offer	1.57	0.20	-1.37 ↓
Gaer	8,721	Crynodeb	20.93	38.42	17.49 ↑
		Ffurfiol	13.95	30.04	16.09 ↑
		Anffurfiol	4.80	7.06	2.26 ↑
		Ag offer	2.18	1.32	-0.86 ↓
Parc Tredegar	4,421	Crynodeb	10.39	20.82	10.43 ↑
		Ffurfiol	7.07	13.54	6.47 ↑
		Anffurfiol	2.21	7.00	4.79 ↑
		Ag offer	1.11	0.28	-0.83 ↓

Yng nghymuned y De-orllewin mae Gaer (17.49) a Pharc Tredegar (10.43) yn dangos gwarged cyffredinol yn y ddarpariaeth mannau agored wrth gymharu gofynion Meysydd Chwarae Cymru a darpariaeth wirioneddol; tra bod gan Maerun ddiffyg (-11.52).

Mae gan Gaer a Pharc Tredegar wagred yn y ddarpariaeth Mannau Agored Ffurfiol ac Anffurfiol a diffyg yn y ddarpariaeth ag Offer. Ond mae gan Maerun ddiffyg yn y ddarpariaeth Mannau Agored Ffurfiol, Anffurfiol ac ag Offer.

Mae'r ddelwedd thematig ganlynol yn dangos darpariaeth mannau agored a mannau gwyrdd naturiol hygyrch ar draws tair ward cymuned y De-orllewin.



Beth yw'r lefelau ansawdd aer ac allyriadau yng nghymuned y De-orllewin?

Gall ansawdd yr aer a anadlwn effeithio'n sylweddol ar ein hiechyd. Prif achosion ansawdd aer gwael yw allyriadau diwydiannol a thraffig ar y ffyrdd. Mae'r llywodraeth genedlaethol ac awdurdodau lleol wedi ymrwymo i wella ansawdd aer, ymrwymiad sydd wedi'i ysgrifennu yn y gyfraith.

Y llygryddion sy'n peri'r prif bryder yw nitrogen deuocsid (NO₂) sydd â throthwy o 40µg/m³ y flwyddyn, a deunydd gronynnol – PM₁₀ (trothwy o 18µg/m³ y flwyddyn) a PM_{2.5} (trothwy o 10µg/m³ y flwyddyn).

Mae'r tabl isod yn dangos bod gan Gasnewydd lefelau uwch o lygryddion yn 2019 o gymharu â chyfartaledd Cymru.

Dangosyddion Cysylltiad ag Ansawdd Aer ⁵⁸		2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019
Casnewydd	NO ₂ (µg/m ³)	22	20	19	16	19	16	15	15
	PM ₁₀ (µg/m ³)	14	16	15	15	14	13	14	14
	PM _{2.5} (µg/m ³)	11	11	11	10	9	9	9	9
Cymru	NO ₂ (µg/m ³)	13	12	11	10	11	9	9	9
	PM ₁₀ (µg/m ³)	12	14	13	12	12	10	12	12
	PM _{2.5} (µg/m ³)	9	10	10	8	8	7	8	7

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i Gyngor Dinas Casnewydd adrodd am ansawdd aer y ddinas, gyda'r adroddiadau diweddaraf yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor⁵⁹.

Os canfyddir bod y lefelau ansawdd aer yn uwch na'r safonau hyn, rhaid datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA). Mae monitro ansawdd aer wedi nodi nifer o feysydd lle mae'r lefelau nitrogen deuocsid yn uwch na'r safonau ansawdd aer.

Daeth nifer o newidiadau i Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer y ddinas i rym ar 1 Gorffennaf 2018, gyda Chasnewydd yn nodi 11 ARhAA, gyda 4 wedi'u lleoli yn ardal gymunedol y De-orllewin.

Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ⁶⁰		
	Lleoliad	Ardaloedd Cymunedol
1.	Caerllion	Caerllion
2.	Heol Caerffili	Graig
3.	Cefn Road	Tŷ-du
4.	Chepstow Road / Clarence Place / Caerleon Road	Sain Silian / Victoria / Beechwood
5.	George Street	Stow Hill / Pilgwenlli
6.	Ffordd Malpas (De)	Shaftesbury
7.	Glasllwch	Allt-yr-ynn / Tŷ-du
8.	High Cross	Allt-yr-ynn / Tŷ-du
9.	Royal Oak Hill	Caerllion / Ringland
10.	Shaftesbury	Shaftesbury
11.	Sain Silian	Sain Silian

Allwedd  Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng nghymuned y De-orllewin

⁵⁸ [Dangosyddion Ehangu Ansawdd Aer, Stats Cymru – Llywodraeth Cymru](#)

⁵⁹ [Adroddiad Cynnydd o ran Ansawdd yr Aer, Cyngor Dinas Casnewydd](#)

⁶⁰ [Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, Cyngor Dinas Casnewydd](#)

Beth yw'r perygl llifogydd yma?

Mae llifogydd yn digwydd pan fo dŵr yn cyrraedd lle yn gynt nag y gall ddraenio i ffwrdd. Glawiad yw hyn fel arfer, ond gall fod o ffynonellau eraill. Mae hyn yn achosi i aberoedd, afonydd, ffosydd, draeniau neu garthffosydd orlifo gan achosi llifogydd yn y tai, y busnesau, y tir fferm a'r seilwaith amgylchynol.

Mae'r ddelwedd thematig yn dangos y perygl llifogydd diweddaraf⁶¹ ar draws tair ward ardal gymunedol y De-orllewin.

⁶¹ Data Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru

Perygl Llifogydd ar draws Cymuned y De-orllewin

Perygl Llifogydd

Parthau Wedi'u Hamddiffyn NCT 15


-  Môr
-  Afonydd
-  Afonydd a'r Môr

Afonydd a'r Môr

-  Parth Llifogydd 3
-  Parth Llifogydd 2

Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach

-  Parth Llifogydd 2
-  Parth Llifogydd 3



N
1:35,000